**Ymateb i ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

# Tlodi ac Anghydraddoldeb

**Medi 2014**

## Cyflwyniad

Nod Chwarae Teg yw cyflawni ein gweledigaeth o Gymru lle mae menywod yn cyflawni ac yn ffynnu. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda menywod i ehangu gorwelion a meithrin hyder a sgiliau; gweithio gyda chyflogwyr i greu gweithleoedd modern sy'n llwyddo drwy ddefnyddio cyfraniad pawb; a gweithio gyda phobl â dylanwad, addysgwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i greu cymdeithas sy'n gwerthfawrogi, yn cefnogi ac yn elwa menywod a dynion yn yr un modd.

Yn yr ymateb hwn, byddwn yn ceisio ateb y tri chwestiwn a amlinellwyd yn y Cylch Gorchwyl gan ganolbwyntio ar sut mae tlodi yn effeithio ar fenywod a phrofiad menywod o dlodi.

Mae tlodi yn effeithio ar y ddau ryw yn wahanol. Mae risgiau, achosion a phrofiadau o dlodi yn wahanol ar gyfer dynion a menywod, ac mae safle'r fenyw yn y cartref a'r gweithle yn ffactorau allweddol wrth bennu'r gwahaniaethau hyn. Fel rhan o'r gwaith ehangach i leihau lefelau tlodi, mae'n hanfodol defnyddio dull sydd wedi'i deilwra'n arbennig i fynd i'r afael â nodweddion unigryw tlodi menywod.

### Argymhellion

1. Gwella'r cydgysylltiad rhwng y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ymarferol ac wrth adrodd ar gynnydd er mwyn tynnu sylw at lwyddiannau a meysydd lle mae angen rhagor o ymyrraeth.
2. Sicrhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb trylwyr ar gyfer **pob** rhaglen a menter newydd, a bod y broses hon yn cael ei monitro a'i gwella'n barhaus.
3. Ehangu sut mae tlodi'n cael ei ddiffinio a'i fesur er mwyn edrych o fewn aelwydydd a deall sut mae'r risg o dlodi a'r profiad o dlodi yn wahanol ar gyfer y ddau ryw.
4. Sicrhau bod holl adrannau Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu ar gyfer trechu tlodi ac anghydraddoldeb a'u bod yn ymwybodol o'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb menywod fel rhan o hyn.

5. Defnyddio adnoddau cyllidebu ar sail rhyw i lywio penderfyniadau ariannu a mentrau newydd er mwyn osgoi effeithiau ar y rhywiau yn ystod y camau datblygu yn hytrach na'u bod yn dod i'r amlwg yn ystod y camau ymgynghori ac ymgysylltu.
6. Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi menywod drwy:
    a. Fynd i'r afael â'r farn bod menywod yn gynhalwyr yn gyntaf ac yn enillwyr cyflog yn ail
    b. Sicrhau darpariaeth gofal plant fforddiadwy a hygyrch ar gyfer pob incwm
    c. Chwilio am ffyrdd gwell o gefnogi rhieni unigol fel y gallan nhw fanteisio ar gyfleoedd gwaith o ansawdd
    d. Annog arferion modern yn y gweithle, yn cynnwys gwaith rhan-amser a rhannu swydd, ar lefelau uwch, fel nad yw menywod yn cael eu gorfodi i weithio islaw eu potensial
    e. Gwneud Cymru'n wlad â Chyflog Byw

**Ymateb Manwl**

**1. Pa mor effeithiol y mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a strategaethau eraill y llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd**

1.1 Mae cysylltiad anorfod rhwng tlodi ac anghydraddoldeb felly mae'n amhosibl mynd i'r afael ag un heb fynd i'r afael â'r llall.
1.2 Mae plethu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Cynllun Cydraddoldeb Sengl i'w groesawu ond gellid cryfhau hyn er mwyn gwneud y cysylltiadau'n fwy amlwg a chefnogi dull mwy cydgysylltiedig o fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb.
1.3 Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn hanfodol i ategu'r dull hwn. Mewn rhai achosion, nid yw'r rhain yn cael eu cyflawni mewn dull cyson ac nid ydynt yn ystyried y gwahanol sefyllfaoedd gwaith a domestig y mae dynion a menywod ynddynt.

**Argymhellion 1 a 2**

**2. Effeithiau tlodi, yn enwedig amddifadedd a thlodi eithafol, ar grwpiau gwahanol**

2.1. **Mae menywod yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi a dioddef cyfnodau hirach ac ailadroddus o dlodi na dynion**

2.1.1. Mae 22% o fenywod yn byw mewn tlodi o gymharu ag 20% o ddynion.[1] Un rheswm am hyn yw bod aelwydydd lle mae menyw sengl yn benteulu yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi.[2]

2.1.2. Efallai fod hyd a lled gwirioneddol tlodi menywod yn cael ei guddio gan fod tlodi'n cael ei fesur fesul aelwyd ar sail y rhagdybiaeth fod adnoddau ac incwm yn cael eu rhannu'n gyfartal a bod ystadegau incwm isel yn cynnwys cymorth gofal plant fel incwm ond nad ydynt yn didynnu'r costau.

[1] Poverty and Social Exclusion (2012) "Poverty and Gender: Initial Findings PSE 2012"
[2] Fran Bennett drwy Open Democracy (2014) "Gender and Poverty in the UK: inside the household and across the life course"

2.1.3. Er bod diffinio tlodi yn nhermau arian yn bwysig ac yn ddefnyddiol, mae'n anwybyddu goblygiadau ehangach fel tlodi o ran gallu gwneud penderfyniadau, tlodi amser a thlodi o ran gwneud dewisiadau.[3]

**Argymhelliad 3**

2.2. **Mae menywod mewn mwy o berygl o syrthio i dlodi na dynion ac mae'r ffactorau risg ar eu cyfer yn wahanol.**

2.2.1. Mae adroddiad a gwblhawyd ar ran Sefydliad Joseph Rowntree yn dadlau bod tri ffactor yn rhyngweithio i roi menywod mewn mwy o berygl o dlodi: Teulu, Marchnad a'r Wladwriaeth.[4]

2.2.2. O ran teulu, mae'r strwythur, yr adnoddau sydd ar gael a sut mae cyfrifoldebau'n cael eu dosrannu o fewn y teulu a lefel y ddibyniaeth i gyd yn effeithio ar risg menyw o fod yn dlawd.[5]

2.2.3. Mae menywod yn parhau i gael eu gweld fel cynhalwyr yn gyntaf ac enillwyr cyflog yn ail, a gall y farn hon gyfyngu'n arw ar ddewisiadau cyflogaeth menywod i waith rhan-amser â chyflog isel a'u rhwystro rhag manteisio ar addysg a hyfforddiant.

2.2.4. Gall lefel a dwysedd gwaith gofalu di-dâl fod yn fwy fyth ar gyfer y rheini sy'n byw mewn tlodi oherwydd diffyg gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith digonol yn eu milltir sgwâr a phrinder adnoddau i dalu am wasanaethau gofal.[6]

2.2.5. Mae bod yn ail enillydd cyflog yr aelwyd yn gallu golygu bod llawer o fenywod yn ddibynnol ar eu partner yn ariannol hefyd. Gall hyn olygu bod menywod mewn mwy o berygl o dlodi yn enwedig pe bai'r berthynas yn chwalu.

2.2.6. Ar gyfer rhieni unigol, mae'r risg o dlodi yn fwy fyth, gydag aelwydydd â menyw'n benteulu yn fwy tebygol o lawer o fyw mewn tlodi nag aelwydydd â dyn yn benteulu.[7]

2.2.7. Mae'r pwysau o gydbwyso gwaith a gofal yn fwy hefyd ac nid yw llawer o rieni unigol ond yn gallu gweithio'n rhan-amser. Nid yw hyn yn sicrhau ffordd allan o dlodi gan fod traean o rieni unigol sy'n gweithio'n rhan-amser yn byw mewn tlodi.[8]

**Argymhellion 6a, 6b, a 6c**

2.2.8. O ran y farchnad, mae angen ystyried addysg a lefelau sgiliau, cyfraniad at y farchnad lafur, gwaith rhan-amser a chyflogau isel, gwyliau a gweithio'n hyblyg a phwysigrwydd yr ardal leol.[9]

2.2.9. Mae gormod o fenywod yn gwneud y mathau o waith sy'n gysylltiedig â chyfraddau uwch o dlodi yn cynnwys swyddi cyflog isel, rhan-amser, ansicr neu dros dro.[10] Mae 22% o fenywod yn byw ar incwm isel parhaus o gymharu ag 14% o ddynion[11], menywod sy'n gwneud 80% o'r holl swyddi rhan-amser yng

---

[3] Oxfam International/ European Women's Lobby (2010) "Women's Poverty and social exclusion in the European Union at a time of recession: An Invisible Crisis?"
[4] Prifysgol Rhydychen (2014) "Poverty through a Gender Lens: Evidence and Policy review on Gender and Poverty"
[5] Ibid
[6] Y Cenhedloedd Unedig (2013) "Report of the Special Rapporteur on extreme poverty and human rights"
[7] Fran Bennett "Gender and Poverty in the UK"
[8] Gingerbread (2013) http://www.gingerbread.org.uk/news/200/Part-time-poverty
[9] Prifysgol Rhydychen "poverty through a Gender Lens"
[10] Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) "Employment, Pay and Poverty"
[11] Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) "Women and Poverty"

Nghymru[12] gyda 14.1% o weithwyr rhan-amser y DU yn byw mewn tlodi o gymharu â 6.5% o weithwyr llawn amser.[13]

2.2.10. Menywod yw 55% o'r 1.4 miliwn o bobl sy'n gweithio ar gontractau dim oriau.[14] Mae llawer o'r rhai sy'n gweithio ar y contractau hyn yn gweithio'n rhan-amser (64%), yn awyddus i gael rhagor o oriau (35%) ac mae eu horiau, ac felly eu hincwm, yn amrywio o un wythnos i'r llall. Gallai ansefydlogrwydd y contractau hyn a'r effaith y gallent ei chael ar hawl bobl i gael budd-daliadau wthio menywod yn ddyfnach i dlodi.

2.2.11. Mae hyn oll yn cyfrannu at y broblem gynyddol o dlodi mewn gwaith, ac mae gwahaniaethau i'w gweld rhwng y ddau ryw mewn perthynas â hyn hefyd. Mae dynion yn fwy tebygol o brofi tlodi mewn gwaith oherwydd eu sefyllfa deuluol, yn cynnwys bod â phartner heb incwm ei hun, ac mae menywod yn fwy tebygol o'i brofi oherwydd eu sefyllfa waith, h.y. gwaith rhan-amser, tâl isel.[15]

## Argymhellion 6d a 6e

2.2.12. Mae rôl y wladwriaeth yn ymwneud â lles a gwasanaethau'n bennaf. Mae a yw budd-daliadau'n rhai unigol neu'n rhai ar y cyd ac i bwy maent yn cael eu talu a sut yn effeithio ar risgiau tlodi ar gyfer y naill ryw a'r llall, ac mae gwasanaethau'n arbennig o bwysig i'r rheini sy'n gofalu am blant neu oedolion sâl, anabl neu hen.[16]

2.2.13. Mae menywod yn dibynnu mwy ar fudd-daliadau na dynion, gyda chyfran uwch o'u hincwm yn dod o'r wladwriaeth. O'r herwydd, mae diwygiadau lles yn cael effaith fwy o lawer ar fenywod, yn enwedig rhieni unigol, ac maent yn fwy tebygol o syrthio i dlodi o ganlyniad.

### 2.3. Mae profiad menywod o dlodi hefyd yn wahanol i brofiad dynion o dlodi oherwydd eu safleoedd gwahanol yn y cartref ac yn y gwaith

2.3.1. Roedd adroddiad a baratowyd gan y Women's Budget Group (WBG) a Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) yn 2008 yn amlinellu profiadau menywod o bob cwr o'r DU sy'n byw mewn tlodi.[17] Er bod y cyd-destun gwleidyddol a chymdeithasol wedi newid ers hynny, mae'r profiadau a ddisgrifir gan y menywod hyn yn berthnasol o hyd i'r drafodaeth am dlodi ac anghydraddoldeb.

2.3.2. Roedd yr adroddiad yn dangos bod llawer o fenywod yn profi tlodi fel ymdeimlad parhaus o ansicrwydd ac ansefydlogrwydd ariannol a diffyg unrhyw gyfle gwirioneddol i wella'u sefyllfa.[18]

2.3.3. Mae llawer o bobl sy'n profi tlodi yn byw mewn ardaloedd â llawer o amddifadedd sydd â phroblemau hysbys. Yn gyffredinol, ychydig iawn o fuddsoddiad a geir yn yr ardaloedd hyn ac mae'r tai o ansawdd gwael a'r gwasanaethau'n annigonol. Mae cysylltiad hirsefydledig hefyd rhwng byw mewn amddifadedd, cyrhaeddiad addysgol gwael ac iechyd corfforol ac iechyd meddwl gwael. Roedd adroddiad y WBG yn adlewyrchu'r profiad hwn.

---

[12] Women Adding Value to the Economy (2014) "Working Patterns in Wales: Gender, Occupations and Pay"
[13] Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) "Employment, Pay and Poverty"
[14] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) "Analysis of employee contracts that do not guarantee a minimum number of hours"
[15] Prifysgol Rhydychen "Poverty through a Gender Lens"
[16] Prifysgol Rhydychen "Poverty through a Gender Lens"
[17] Women's Budget Group a Sefydliad Joseph Rowntree (JRF) (2008) "Women and Poverty: Experiences, empowerment and engagement"
[18] Ibid

2.3.4. Er y bydd rhai o’r profiadau hyn yn wir am ddynion sy’n byw mewn tlodi hefyd, mae baich gofal a phwysigrwydd gallu defnyddio gwasanaethau yn gallu golygu bod menywod yn fwy tebygol o brofi effeithiau tlodi.

2.3.5. Mae tlodi yn gallu arwain at ddiffyg annibyniaeth a difreinio hefyd. Mae menywod sy’n byw mewn tlodi yn parhau i fod ar y cyrion yn wleidyddol [19] a thra bo hyn yn parhau, bydd trafodaethau polisi ar bob lefel yn dioddef wrth i brofiadau a safbwyntiau’r grŵp hwn barhau i fod yn anweladwy.

**2.4. Gall realiti a risg tlodi fod yn fwy difrifol fyth i fenywod sy’n perthyn i grŵp â nodwedd warchodedig arall hefyd**

2.4.1. Mae menywod dros 65 oed yn fwy nag un a hanner gwaith yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi na dynion yr un oed ar gyfartaledd yng ngwledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn gyffredinol.[20]

2.4.2. Gall hyn fod o ganlyniad i oes o incwm isel, bylchau mewn patrymau gwaith a cholli partner roeddent yn dibynnu arno am sicrwydd ariannol.

2.4.3. Pwysau arall ar fenywod hŷn, yn enwedig y rheini mewn cymunedau incwm isel, yw’r ddibyniaeth gynyddol ar neiniau a theidiau fel ffynhonnell gymorth anffurfiol, yn enwedig gofal plant.[21] Mae llawer o neiniau’n lleihau eu horiau er mwyn cynorthwyo’u teuluoedd ac mae hyn yn cael effaith amlwg ar eu gallu i ychwanegu at eu cronfa bensiwn.

2.4.4. Mae risgiau ychwanegol ar gyfer rhai grwpiau o fenywod iau hefyd. Mae mamau yn eu harddegau deirgwaith yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi na mamau yn eu tridegau.[22] Hefyd, mae mwy o blant yn cael eu geni i famau yn eu harddegau mewn ardaloedd o amddifadedd, sy’n awgrymu bod tlodi nid yn unig yn risg i famau yn eu harddegau ond ei fod hefyd yn cyfrannu at gyfraddau beichiogrwydd ymhlith merched yn eu harddegau hefyd.[23]

2.4.5. Mae data’r Cyfrifiad yn dangos bod gan fenywod duon a lleiafrifoedd ethnig gynrychiolaeth ormodol yn aelwydydd tlotaf y DU.[24] Mae menywod o’r cymunedau hyn yn wynebu’r un risgiau o dlodi â menywod Gwyn Prydeinig ond maent hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol wrth geisio cael swyddi o ansawdd sy’n talu’n dda fel sgiliau Saesneg gwael, rolau mwy traddodiadol ar gyfer y ddau ryw ar yr aelwyd a diffyg gofal plant priodol.[25]

2.4.6. Gall lleoliad fod yn broblem arbennig i gymunedau ethnig sy’n byw mewn rhai o’r ardaloedd o amddifadedd mwyaf yn y wlad.[26]

## 3. Sut y mae deddfwriaeth, polisïau a chyllidebau sydd wedi’u targedu at drechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb yn cael eu cydgysylltu a’u blaenoriaethu ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru

3.1. Mae cysylltiad anorfod rhwng tlodi ac anghydraddoldeb ac mae angen i holl adrannau Llywodraeth Cymru gydgysylltu eu hymdrechion er mwyn dileu’r ddau ohonynt. Mae’r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, y Cynllun Cydraddoldeb

[19] Ibid
[20] Prifysgol Rhydychen “Poverty through a Gender Lens”
[21] Ibid
[22] Ibid
[23] Ibid
[24] Oxfam (2011) “Exploring BME Maternal Poverty: The financial lives of ethnic minority mothers in Tyne and Wear”
[25] Ibid
[26] Centre on Dynamics of Ethnicity Briefing Paper “Diversity or Deprivation: research evidence and policy recommendations from the University of Manchester”

Strategol a Grŵp Cynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb i gyd yn arwyddion bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn ac wedi ymrwymo i wneud hynny.

3.2. Gellid cymryd camau eraill fel edrych ar brif ffrydio rhywedd a defnyddio adnoddau cyllidebu ar sail rhyw a allai sicrhau bod effeithiau diangen ar y rhywiau yn cael eu hosgoi yn ystod y gwaith datblygu polisi yn hytrach na'u bod yn dod i'r amlwg yn ystod y cam ymgynghori ac ymgysylltu.

3.3. Yn bwysicaf oll, mae'n hanfodol bod pob adran yn deall yr angen i flaenoriaethu gwaith i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb. Mae'r papur hwn yn dangos pa mor bellgyrhaeddol y mae risgiau ac effeithiau tlodi i fenywod. Mae dull cydgysylltiedig cadarn sy'n ystyried yn llawn sut mae tlodi yn effeithio ar y ddau ryw'n wahanol yn hollbwysig os yw Llywodraeth Cymru am lwyddo i drechu tlodi ac anghydraddoldeb/adeiladu Cymru heb dlodi ac anghydraddoldeb.

**Argymhellion 4 a 5**

## Casgliad

Mae tlodi yn fater sy'n effeithio ar y ddau ryw yn wahanol ac mae cysylltiad anorfod rhwng tlodi ac anghydraddoldeb. Mae risgiau a phrofiadau dynion a menywod o dlodi yn wahanol ac ni ellir lleihau tlodi heb ddeall y gwahaniaethau hyn.

Ar gyfer menywod, eu safle yn y gweithle ac yn y cartref sy'n diffinio'u risg a'u profiad o dlodi i raddau helaeth. Mae cael eu gweld fel cynhalwyr yn gyntaf ac enillwyr cyflog yn ail, methu â chael gwaith sy'n ddigon hyblyg iddynt allu cydbwyso gwaith a gofal, a gorfod dewis swyddi llai sicr sy'n talu llai yn golygu nad yw gwaith yn cynnig ffordd allan o dlodi i lawer o fenywod, yn wahanol i'r gred gyffredinol.

Ofer fydd defnyddio dull niwtral o ran y rhywiau i drechu tlodi. Er mwyn llwyddo, rhaid i strategaethau tlodi fynd i'r afael ag achosion anghydraddoldeb menywod hefyd.

---

Byddai Chwarae Teg yn fwy na pharod i drafod unrhyw agwedd ar yr uchod yn fanylach. Cysylltwch â:

Natasha Davies
**Partner Polisi**

Natasha.davies@chwaraeteg.com
02920 478900